**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, 23ain Hydref, 2023**

**1**

1. 1 **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

1.2**PRESENNOL**

Cyng. Alun Morris(AR) (Cadeirydd), Cyng. John Owen(JO), Cyng. Hefin Martin(MH)
Cyng. Anwen Jones(AJ), Cyng Nerys Dobson(ND),), Delyth Algieri (clerc).
Cyng Nia Owen(Cynghorydd Sir)(NO

1.3 **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ), Cyng. Eifion Williams(EW), Cyng. Dylan Jones(DJ),
Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)(AR)

2. **CADARNHAU'R COFNODION 27ain 2023**

Cynnigwyd yn gywir gan ( JO) ac eilwyd gan (HM).

3.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 Cynnal a Chadw o'r Cyfarfod Diwethaf

Y clerc wedi trafod y goeden sydd gyferbyn a Rhiwlas, Ffordd Bryn Saith, Llanddoged gyda Emyr Jones o'r Adran Priffyrdd, Conwy a Morfydd Jones sydd yn gyfrifol am y fynwent y capel ble mae'r goeden. Emyr Jones yn fodlon torri y goeden i lawr os bydd caniatad gan gofalwyr y fynwent.

3.2 **COED – MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN**

Diolchwyd i Cyng Hefin Martin am dorri y coed a oedd yn beryg o syrthio ym maes parcio Cadair Ifan Goch Maenan.

4 **CEISIADAU AR GYFER Y GRANT CRONFA FFYNIANT CYFFREDIN Y DU' CONWY**

Eglurodd y clerc y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn anfon cadarnhad os bydd y ceisiadau a gyflynnwyd iddynt i'r 'Cronfa Ffyniant Cyffredin y Du Conwy gan y Cyngor Cymuned yn llwyddiannus erbyn diwedd mis Tachwedd 2023.

5. **CYNNAL A CHADW**

5.1 Cais i gael concritio y ffosydd lawr yr allt Pencraig Arthur, Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.

5.2 Angen edrych ar ganghen o goeden sydd wedi pydru ac yn gwyro allan i'r ffordd yn y cae gyferbyn a
Tan y Celyn a Byngalow, Ffordd ,Efail Uchaf, Llanddoged

5.3 Twll yn y ffordd islaw Tyddyn Frencher, Maenan.

5.4 Clawdd Troed y Rhiw yn tyfu allan i'r ffordd ar Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.

5.5 Tyllau yn y Ffordd wrth Trwyn Swch, Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.

5.6 Llwynni o eithin yn tyfu ar ochr y ffordd wrth y 'railings' gwyn sydd yn gwneud hi yn annodd i gerbydau weld yn glir i droi ffwrdd oddi ar y B5113 am Llanddoged yn Tyrpeg.

5.7 Cais i gael yr Adran Priffyrdd edrych ar gyflwr yr allt Troed y Rhiw, Maenan.6.
**UNRHYW FATER ARALL**

6.1 **LLWYBR PENCRAIG ARTHUR, LLANDDOGED**
Derbyniwyd e-bost gan Madelein Raven, Pencraig Arthur, Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged ynglyn a Llwybr Hawliau Tramwy sydd wrth ei cartref , maent yn gofyn am gefnogaeth aelodau y cyngor unwaith eto i wrthwynebu y cerbydau 4 x 4 defnyddio y llwybr tramwy.
Trafodwyd aelodau y mater yma a phasiwyd yn unfrydol nad ydi y Cyngor Cymuned ddim yn cefnogi agor y Llwybr ar gyfer cerbydau 4 x 4 ond penderfynwyd nad oes gan yr aelodau dim gwrthwynebiad agor y llwybr ar gyfer llwybr troed.
6.2 **DIFFIBLIWR YSGOL LLANDDOGED**
Cafodd y clerc alwad ffon gan Ysgol Llanddoged fod drws y diffibliwr yn hongian ac angen cael eu drwsio. Y clerc wedi trefnu gyda yr ymatebwyr cyntaf i drwsrio y drws.
Derbyniwyd neges gan Pennaeth yr ysgol fod angen cwpwrdd newydd i'r diffibliwr sydd i gael am ddim ond bydd angen talu i'w osod.
Pasiwyd i'r clerc gysylltu gyda yr Ymatebwyr Cyntaf i holi beth ydi'r gost o osod cwpwrdd newydd.
6.3 **COEDEN NADOLIG**
Cyhoeddwyd y Cadeirydd Alun Morris ei fod wedi trefnu gyda Mr Gareth Jones i gael Coeden Nadolig ar gyfer pentref Llanddoged eto eleni.